

## Salwch / Illness

Pan mae eich plentyn yn wael, gall fod yn anodd penderfynnu i'w gyrru i'r ysgol a'i peidio. Gofynwch y cwestiynau canlynol:

1. Yw eich plentyn yn ddigon da i ymgymryd â gweithgareddau dyddiol yr ysgol? Os nad, cadwch eich plentyn adref.
2. Yw cyflwr eich plentyn yn un a all ei basio ymlaen i eraill? Os gall ei basio ymlaen, cadwch eich plentyn adref.

*When your child is unwell, it can be hard deciding whether to keep them off school. Ask the following questions:*

1. *Is your child well enough to do the activities of the school day? If not, keep your child at home.*
2. *Does your child have a condition that could be passed on to others? If so, keep your child at home.*

## Canllawiau GIG ar gadw plant adref / NHS Guidelines on keeping children at home

- Annwyd / Tagu / Dolur gwddf / Cur pen — gall blentyn sydd âg annwyd, yn tagu, sydd a dolur gwddf neu a chur pen fynychu'r ysgol oni bai bod ganddynt dymheredd uchel, eu bod yn teimlo'n gysglyd neu yn ben ysgafn Os felly dylent ddychwelyd o fewn 24awr o deimlo'n well.
- Cold / Cough / Sore Throat / Headache — a child with a minor cold, cough, sore throat or headache may attend school unless they have a high temperature, drowsiness or are feeling light headed. If so, they should return to school 24hours after feeling better.
- Chwydu / Dolur rhydd — dylai plant â'r cyflyrau yma aros adref o'r ysgol. Gallant ddychwelyd 48awr ar ôl i'r symptomau basio.
- Vomiting / Diarrhoea — children with these conditions should stay home from school. They can return 48hours after their symptoms disappear.
- Brechau — gall frech fod yn arwydd cynnar o salwch heintus megis y frech ieur neu'r frech goch. Dylai plant â'r cyflyrau yma aros adref o'r ysgol a dylech drafod gyda nyrs neu ddoctor cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol.
- Rashes — rashes can be the first sign of many infectious illnesses, such as chickenpox or measles. Children with these conditions should stay home from school and you should consult with a nurse or GP before sending them to school.

## Y Gyfraith / The law

**Mae presenoldeb rheolaidd i blant o oedran ysgol statudol (5—16) yn gyfraith. CANLLAWIAU CYNGOR GWYNNEDD — Beth yw'r oblygiadau cyfreithiol os yw fy mhentyn yn triwantu?**

- mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am wirio bod plant sydd wedi eu cofrestru mewn ysgol ac o oedran ysgol statudol yn mynychu'n rheolaidd — bydd y Swyddog Lles Addysg ar gyfer ysgol eich plentyn yn archwilio achosion o bresenoldeb gwael ac yn fodlon gweithio'n agos gyda chi er mwyn ceisio atal y triwantu
- os bydd eich plentyn yn triwantu dro ar ôl tro, neu'n peidio â mynychu'r ysgol yn rheolaidd gall yr Awdurdod Lleol benderfynu gweithredu'n gyfreithiol er mwyn sicrhau eu presenoldeb
- gall yr Awdurdod Lleol weithredu mewn amryw o ffyrdd gan gynnwys gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Goruchwylio Addysg, rhoi dirwy neu erlyn a all arwain at ddirwy neu hyd yn oed garchar

**Regular attendance for children of a statutory school age (5-16) is the law.**

**GWYNEDD COUNCIL GUIDELINES — What are the legal consequences if my child truant**

- the Local Authority is responsible for checking that children registered at a school and of compulsory school age attend regularly - the Education Welfare Officer for your child's school will follow up incidents of poor attendance and will be willing to work closely with you to try to overcome the truancy
- if your child persistently truant or fails to attend school regularly the Local Authority may decide on taking legal action to ensure their attendance
- there are various actions that the Local Authority may take which include an application to the Court for an Education Supervision Order, imposing a Fixed Penalty Fine or prosecution which could lead to a fine or even imprisonment



**Gwybodaeth i rieni  
am  
bresenoldeb ac ab-  
senoldeb ysgol**



## Ysgol Pentreuchaf

(Prifathro/Headteacher: Mr G.E Thomas)  
Pentreuchaf, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DZ.  
Ffôn/Tel - 01758 750 600 / 07584613603  
ebost/email - : [GethinElisThomas@gwynedd.gov.uk](mailto:GethinElisThomas@gwynedd.gov.uk)  
Gwefan/web: [www.ysgolpentreuchaf.org](http://www.ysgolpentreuchaf.org)

**Information for par-  
ents on school attend-  
ance and absence**



## Pam fod presenoldeb yn bwysig? Why is attendance important?

### Cyrraedd Potensial / Reaching Potential

Ystyrir bod presenoldeb rheolaidd yn bwysig iawn yn Ysgol Pen-treuchaf. Hebdo, ofer byddai ein holl ymdrechion i ddarparu addysg o safon uchel; **os nad yw disgybl yn bresenol yn yr ysgol ni all ddysgu na chyrraedd ei wir botensial.** Bydd plant nad ydynt yn yr ysgol yn colli addysg, cyfleoedd cymdeithasol a phrofiadau hanfodol i ddatblygu'r aelodau effeithiol o gymdeithas.

*Regular attendance is considered very important at Ysgol Pen-treuchaf. Without it, all our efforts to provide high quality education would be futile; **if a pupil is not present at school he/she can not learn or reach their true potential.*** Children who are not in school are missing education, social opportunities and experiences essential to develop effective members of society.

**CYRRAEDD YSGOL = CYRRAEDD POTENSIAL**

Gwelliant bychan mewn presenoldeb = gwahaniaeth mawr mewn cyrraedd



A small improvement in attendance = a huge difference in attainment.

**ATTEND SCHOOL = ACHIEVE POTENTIAL**

### Absenoldeb / Absence

I ddiogelu eich plant ac i sicrhau eich bod chi a ni yn gwybod yn union ble maent, gofynnwn i rieni adael i ni wybod, drwy alwad ffôn os na fydd plentyn yn mynd i fod yn yr ysgol CYN 9.00 a.m. Gobeithiwn yn arw y bydd pob rhiant yn cydymffurfio â'r system hon ac na fydd yn rhaid i ni gysylltu i weld pa le y mae unrhyw blentyn gan fod hyn yn amharu ar rediad yr ysgol. **Credwn fod y system hon yn tawelu meddyliau rhieni a staff ynglŷn â diogelwch ein plant.**

*To ensure the safety of your children, and to make certain that we and you know exactly where they are, we ask you to phone the school BEFORE 9.00 a.m. if your child will not be at school. We sincerely hope that every parent will co-operate with this system and that we will not need to contact anyone to find out where their child is as this has a detrimental effect on the running of the school. **We believe that this system eases the minds of parents and staff regarding the safety of our children.***

### Gwyliau yn ystod tymor ysgol / Holidays during school term

**Mae'r Adran Addysg yn cynghori pob rhiant i beidio tynnu eu plant o'r ysgol i fynd ar wyliau gan y bydd yn amharu'n negyddol ar addysg eich plentyn.**

Rydym yn ymwybodol bod rhai rhieni yr ardal yn gweithio ym myd twristiaeth a bod hi'n anodd trefnu gwyliau teuluol yn ystod gwyliau ysgol. Gallwch felly gyflwyno ffurflen gais (ar gael o'r swyddfa) am wyliau hyd at 10 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Byddwn yn dilyn canllawiau Cyngor Gwynedd ac yn nodi unrhyw ddyddiau gwyliau heibio 'r 10 diwrnod yn cael eu cofnodi ar y system bresenoldeb yn 'absennol heb awdurdod'

**The Education Department advises all parents not to take their child out of school to go on holiday as it will have a negative effect on your child's education.**

*We are aware that some parents work in the tourist trade and that it's hard to arrange family holidays during the school holidays. You may fill in a permission form (available from the office) for up to 10 days holiday in any school year. We will be following Gwynedd Council's guidelines and registering any days beyond the allotted 10 as 'absent without permission' on our attendance system.*



**PRESENOLDEB 90% = PRESENOLDEB DA?**

**90% ATTENDANCE = GOOD ATTENDANCE?**

Mae presenoldeb o 90% yn golygu bod plentyn wedi methu hanner diwrnod bob wythnos!

*Attendance of 90% means that a child misses half a day every week.!*

- 1 blwyddyn ysgol + phresenoldeb o 90% = 4 wythnos o wersi wedi eu colli!
- 1 school year + attendance of 90% = 4 weeks of lessons missed!
- 5 mlynedd o ysgol + presenoldeb o 90% = hanner blwyddyn o wersi wedi eu colli!
- 5 school years + attendance of 90% = half a year of lessons missed!

***90% - ddim cystal ac y byddech yn ei feddwl!  
90% - not as good as you might think!***

